LC1387

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Tir a Halogwyd yn Ymbelydrol (Addasu Deddfiadau) (Cymru) 2006

Mae’r Rheoliadau hyn yn addasu amrywiol ddarpariaethau Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990 ("y Ddeddf") i ddarparu i Ran 2A fod yn effeithiol i’r diben o adnabod tir a halogwyd yn ymbelydrol a’i adfer. Maent hefyd yn addasu adran 108 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel y mae’n gymwys i niwed y gellir ei briodoli i ymbelydredd sy’n perthyn i unrhyw sylwedd. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn trosi Erthyglau 48 a 53 o Gyfarwyddeb y Cyngor 1996/29/Euratom sy’n gosod safonau diogelwch sylfaenol i ddiogelu iechyd gweithwyr a’r cyhoedd yn gyffredinol rhag y peryglon sy’n deillio o ymbelydredd ïoneiddio.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae’r addasiadau a nodir yn rheoliadau 7(2), 13(3) a 14(3) yn cynnwys iaith rhyw benodol e.e. "him" "he" a "he" yn y drefn honno. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

Gellir cywiro’r rhain drwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Dim.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**7 Tachwedd 2006**